# Tymor yr Haf (ii) 2018 — Blwyddyn 1 a 2 Mrs Williams a Mrs Rh. Hiley



## Thema'r hanner tymor yw: **Garddwyr Gwyrdd!**

## Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

**Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu**

- Creu cornel chwarae byd bach 'Gardd Aled Afal' a mwynhau anturiaethau yn yr ardd!
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a llyfrau ffeithiol.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, a dysgu sut i ysgrifennu **adroddiad ffeithiol** a **chyfarwyddiadau**.
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

**Datblygiad Creadigol**

Dysgu sut mae artistiaid yn darlunio planhigion, sut caiff planhigion eu cynrychioli mewn celf a sut i wneud darluniadau arsylwadol o blanhigion.

Mwynhau canu caneuon yn ymwneud â'r thema.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener. Rhaid i ni ei ddychwelyd ar ddydd Llun. Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol. (Blwyddyn 2)

**Datblygiad Mathemategol**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 100 o leiaf.
- Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu i ffwrdd, lluosi a rhannu.
- Defnyddio arian, parhau i ddatblygu sgiliau dweud yr amser a datblygu ein sgiliau datrys problem.
- Chwarae llawer o gêmau mathemateg pen.

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBYMCWilliams**
**@YGGBYMROwen**

**Addysg Grefyddol:**

Dysgu gwerthfawrogi'r byd o'n cwmpas a thrafod ein cyfrifoldeb i ofalu am y byd.

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:**

Parhau i ddatblygu ein sgiliau codio.

Datblygu sgiliau graffeg gan ddefnyddio offer cyfrifiadurol.

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

- Dysgu enwau rhannau o blanhigion a sut maen nhw'n tyfu;
- Deall bod angen gwahanol leoedd ar wahanol blanhigion i dyfu yng ngwahanol rannau o'r byd;
- Sut i gyflawni profion teg a gwneud mesurau cywir;

**Datblygiad Corfforol**

- Parhau i ddatblygu ein ffitrwydd ac ymarfer sgiliau athletau a pharatoi ar gyfer y mabolgampau, (bore 27/6/18)
- Datblygu sgiliau trin pêl,
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

- Dysgu gweithio fel tîm,
- Mwynhau gofalu am yr amgylchfyd a'r planhigion o gwmpas yr ysgol.

.

**Ymweliad â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru—25/6/18**

YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR